Clerc/Clerk: Anwen Jones
Cyfeiriad/Address: 10 Gorffwysfa, Dwyran, Ynys Mon, LL61 6YJ
Ffon/Tel: 07375781090
E-bost/E-mail: clerc@valley-community-council.wales
Gwefan: www.cyngor-cymuned-fali.cymru
Website: www.valley-community-council.wales

| Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Personel | Minutes of the Finance and Personnel Committee |
|---|---|
| **7.00yh 08/04/2026** | **7.00pm 08/04/2026** |
| Cyfarfod rhithiol ar teams | Remote meeting on teams |

| **Presennol** | | **Present** | |
|---|---|---|---|
| Cynghorwyr: | | Councillors: | |
| G Browne MBE (Cadeirydd) | K Taylor | G Browne MBE (Chair) | K Taylor |
| N Tuck | | N Tuck | |

| **Hefyd yn bresennol** | **Also present** |
|---|---|
| A Jones Clerc | A Jones Clerk |

| | | |
|---|---|---|
| 1 | **Croeso**<br>Croesawyd bawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.<br><br>Cafwyd ganiatad gan pawb yn bresennol i recordio'r cyfarfod er mwyn cynorthwyo gyda pharatoi'r cofnodion. | **Welcome**<br>Everyone was welcomed to the meeting by the Chair.<br>Permission was granted by all present to record the meeting in order to assist with the preparation of the minutes. |
| 2 | **Ymddiheuriadau**<br>Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyng. M Swaine-Williams a'r Cyng. H Williams | **Apologies**<br>Apologies accepted by Cllr. M Swaine-Williams and Cllr. H Williams. |
| 3. | **Cofnodion y cyfarfod diwethaf 14/01/2026 a materion yn codi**<br>Dim | **Minutes of the previous meeting 14/01/2026 and matter arising**<br>None |
| 4. | **Adroddiad Monitro'r Gyllideb ar gyfer 2025/2026**<br>Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad Monitro'r Gyllideb Chwarter 4 ar gyfer 2025/26, fel y'i cyflwynwyd gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol (gweler yr adroddiad atodedig), ac fe'i archwiliwyd.<br>**PENDERFYNWYD**: Argymell bod yr argymhellion a gynhwysir yn Adroddiad Monitro'r Gyllideb Chwarter 4 ar gyfer 2025/26 yn cael eu cyflwyno i'r Cyngor Llawn i'w hystyried a'u cymeradwyo.<br>Cyn/Eil: KT/NT<br>Cytunwyd yn unfrydol | **Budget Monitoring Report for 2025/2026**<br>The Committee received and scrutinised the Quarter 4 Budget Monitoring Report for 2025/26, as presented by the Clerk and Responsible Finance Officer (see attached report).<br>**RESOLVED**: That the recommendations contained within the Quarter 4 Budget Monitoring Report for 2025/26 be recommended to Full Council for consideration and approval.<br>Prop/Sec: KT/NT<br>Agreed unanimously |
| 5. | **Adolygu Rheolau Ariannol**<br>Adolygodd y Pwyllgor Reoliadau Ariannol Model One Voice Wales (OVW) / Cymdeithas Genedlaethol y Cynghorau Lleol (NALC) (Ebrill | **Review Financial Regulations**<br>The Committee reviewed the One Voice Wales (OVW) / National Association of Local Councils |



Cyfeirnod cymeradwyo ar gyfer y cofnodion hyn: 318/2526 (cyfarfod 15/04/2026
Approval reference for these minutes: 318/2526 (meeting of 15/04/2026)

2024). Cytunwyd ar fân ddiwygiadau nad oeddent yn statudol.
**PENDERFYNWYD**: Argymell bod y Rheoliadau Ariannol diwygiedig yn cael eu cyflwyno i'r Cyngor Llawn i'w hystyried a'u cymeradwyo.
Cyn/Eil: KT/NT

(NALC) Model Financial Regulations (April 2024). Minor, non-statutory amendments were agreed.
**RESOLVED**: That the revised Financial Regulations be recommended to Full Council for consideration and approval.
Prop/Sec: KT/NT

**6. Adolygu Rheolau Sefydlog y Cyngor**
Adolygodd y Pwyllgor y Rheolau Sefydlog. Cytunwyd ar fân ddiwygiadau nad oeddent yn statudol.
**PENDERFYNWYD**: Argymell bod y Rheolau Sefydlog diwygiedig yn cael eu cyflwyno i'r Cyngor Llawn i'w hystyried a'u cymeradwyo.
Cyn/Eil: KT/NT

**Review Standing Orders**
The Committee reviewed the Standing Orders. Minor, non-statutory amendments were agreed.
**RESOLVED**: That the revised Standing Orders be recommended to Full Council for consideration and approval.
Prop/Sec: KT/NT

**7. Adolygu Rheolau Sefydlog y Pwyllgor Cyllid a Phersonel**
Adolygodd y Pwyllgor delerau cyfeirnod Pwyllgor Cyllid a Phersonél. Cytunwyd ar fân newidiadau i egluro pwerau dirprwyedig a'r trefniadau gweithio.
**PENDERFYNWYD**: Argymell i'r Cyngor Llawn y dylid ystyried a chymeradwyo Telerau Cyfeirnod diwygiedig Pwyllgor Cyllid a Phersonél.
*Cyn/Eil: KT/NT*

**Review Finance and Personnel Committee Terms of Reference**
The Committee reviewed the Finance and Personnel Committee Terms of Reference. Minor amendments were agreed to clarify delegated authority and working arrangements.
**RESOLVED**: That the revised Finance and Personnel Committee Terms of Reference be recommended to Full Council for consideration and approval.
Prop/Sec: KT/NT

**8. Adolygu Cofrestr Asesiad Risg Llywodraethu ac Ariannol**
Adolygodd y Pwyllgor y Gofrestr Asesu Risgiau Llywodraethu a Chyllid. Cytunwyd ar fân ddiwygiadau a diweddariadau i adlewyrchu trefniadau a rheolaethau cyfredol.
**PENDERFYNWYD**: Argymell i'r Cyngor Llawn y dylid ystyried a mabwysiadu'r Gofrestr Asesu Risgiau Llywodraethu a Chyllid wedi'i diweddaru.
Cyn/Eil: KT/NT

**Review Governance and Financial Risk Assessment Register**
The Committee reviewed the Governance and Financial Risk Assessment Register. Minor amendments and updates were agreed to reflect current arrangements and controls.
**RESOLVED**: That the updated Governance and Financial Risk Assessment Register be recommended to Full Council for consideration and adoption.
Prop/Sec: KT/NT

**9. Adolygu Cofrestr Asedau**
Nodwyd na chafodd yr eitem hon ar yr agenda ei hystyried yn y cyfarfod, ac felly bydd yn cael ei chyfeirio at y Cyngor Llawn i'w hadolygu a'i chymeradwyo.

**Review Asset Register**
It was noted that this agenda item was not considered at the meeting due to an oversight. It will therefore be referred to Full Council for review and approval.

**10. Yswiriant**
Nododd y Pwyllgor, er bod trefniadau yswiriant wedi'u trafod, na ellid gwneud penderfyniad yn y cyfarfod hwn gan nad oedd y dogfennau adnewyddu yswiriant wedi dod i law eto.
Bydd y Clerc/RFO yn adolygu'r dogfennau adnewyddu pan dderbynnir hwy ac yn eu cyflwyno

**Insurance**
The Committee noted that, although insurance arrangements were discussed, no decision could be made at this meeting as the insurance renewal documentation had not yet been received.

i'r Cyngor Llawn i'w cymeradwyo cyn yr adnewyddiad ym mis Mehefin.

The Clerk/RFO shall review the renewal documentation when received and submit it to Full Council for approval prior to renewal in June.

**11. Materion Archwilio : Archwiliad Allanol 2024/25, Archwiliad Sylfaenol 2025/26 a Penodi Archwiliydd Mewnol**

Bu'r Pwyllgor yn trafod materion yn ymwneud ag archwilio. Nodwyd nad oedd penderfyniad yr Archwiliad Allanol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024/25 wedi dod i law eto yn dilyn archwiliad llawn.
Nododd y Pwyllgor fod angen penodi Archwilydd Mewnol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2025/26, yn unol â Rheoliadau Ariannol y Cyngor ac arferion priodol.
Nodwyd hefyd fod dogfennau a dderbyniwyd gan Archwilio Cymru mewn perthynas â'r archwiliad sylfaenol ar gyfer 2025/26 wedi'u rhannu gydag aelodau'r Pwyllgor er gwybodaeth.
**PENDERFYNWYD**: Argymell i'r Cyngor Llawn y dylid penodi Cyngor Gwynedd fel Archwilydd Mewnol y Cyngor ar gyfer 2025/26.
Cyn/Eil: KT/NT

**Audit Matters: 2024/25 External Audit, 2025/26 Basic Audit and Appointment of Internal Auditor**

The Committee considered audit-related matters. It was noted that the External Audit decision for the 2024/25 financial year had not yet been received, following the full audit.
The Committee noted the requirement to appoint an Internal Auditor for the 2025/26 financial year in accordance with the Council's Financial Regulations and proper practices.
The Committee also noted that documentation issued by Audit Wales in relation to the 2025/26 basic audit had been received and shared with members of the Committee for information.
**RESOLVED**: To recommend to Full Council that Cyngor Gwynedd be appointed as the Council's Internal Auditor for 2025/26.
Prop/Sec: KT/NT

**12. Y Rheolydd Pensiwn**

Nododd y Pwyllgor fod y Clerc wedi cyrraedd y trothwy cofrestru awtomatig o fis Hydref 2025 ac felly bod angen ei gofrestru mewn pensiwn gweithle o'r dyddiad hwnnw.
Nododd y Pwyllgor y byddai cynllun pensiwn gweithle NEST yn addas, gyda chyfraniadau statudol o 5% gan y cyflogai a 3% gan y cyflogwr. Nodwyd bod cost amcangyfrifedig y cyflogwr tua £14.40 y mis (£172.80 y flwyddyn), yn amodol ar gadarnhad ar ôl cwblhau'r broses gofrestru.

**PENDERFYNWYD:**
Argymell i'r Cyngor Llawn:

- bod y Clerc yn cael ei chofrestru'n awtomatig i gynllun pensiwn gweithle NEST, yn weithredol o fis Hydref;
- bod cyfraniadau pensiwn y cyflogwr yn cael eu talu ar y gyfradd statudol o 3%, gan gynnwys unrhyw symiau ôl-ddyddiedig sy'n ofynnol;
- bod y Clerc/RFO yn cael awdurdod i gwblhau'r dogfennau pensiwn a chydymffurfiaeth angenrheidiol; a
- bod darpariaeth ar gyfer cyfraniadau pensiwn parhaus y cyflogwr yn cael ei

**The Pensions Regulator**

The Committee noted that the Clerk met the automatic enrolment threshold from October 2025 and is therefore required to be enrolled into a workplace pension from that date.
The Committee noted that the NEST workplace pension scheme would be suitable, with statutory contributions of 5% employee and 3% employer. The estimated employer cost of approximately £14.40 per month (£172.80 per annum) was noted, subject to confirmation following enrolment.

**RESOLVED:**
To recommend to Full Council that:

- the Clerk be automatically enrolled into the NEST workplace pension scheme, with effect from October.
- employer pension contributions be paid at the statutory rate of 3%, including any backdated amounts required.
- the Clerk/RFO be authorised to complete the necessary pension and compliance documentation; and
- ongoing employer pension contributions be provided for within the Council's budget going forward.

Prop/Sec: KT/GB

chynnwys ym mhob cyllideb y Cyngor o hyn ymlaen.

Cyn/Eil: KT/GB

**13. Llog Banc**

Hysbyswyd y Pwyllgor fod HSBC wedi lleihau'r cyfraddau llog ar gyfrifon cronfeydd wrth gefn y Cyngor.

**Bank Interest**

The Committee was notified that HSBC has reduced interest rates on the Council's reserve accounts.

**14. Unrhyw Fater Arall**

**Gliiniadur y Cyngor**

Bu'r Pwyllgor yn trafod gliniadur blaenorol y Cyngor a chytunwyd y caiff ei ailddefnyddio i gefnogi cyfarfodydd ar-lein a chyfarfodydd hybrid y Cyngor. Bydd y Clerc yn sicrhau bod y gliniadur wedi'i baratoi at y diben hwn.

**Grant Cyfalaf Balchder yn eich Cymuned i Gynghorau Tref a Chymuned - 2026**

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth gan Cyngor Sir Ynys Môn ynghylch y cyllid cyfalaf Pride in Your Community a chytunwyd y bydd y mater yn cael ei ystyried gan y Cyngor Llawn, gyda manylion yn cael eu cylchredeg ymlaen-llaw.

Daeth y cyfarfod i ben 21:22.

**Any Other Business**

**Council Laptop**

The Committee discussed the Council's former laptop and agreed that it will be reused to support online and hybrid Council meetings. The Clerk will ensure the laptop is prepared for this purpose.

**Pride in Place Capital Grant for Town & Community Councils 2026**

The Committee discussed correspondence from Isle of Anglesey County Council regarding the Pride in Your Community capital funding and agreed the matter would be considered by Full Council, with details circulated in advance.

The meeting ended 21:22

| **Rhestr Lawn o'r Argymhellion i'r Cyngor Llawn:-** | **Complete List of Recommendations to Full Council:-** |
|---|---|

**Argymhelliad 1:**

I dderbyn y cysoniad banc ar 31/03/2026 fel cofnod gwir a chywir o gyfrifon ariannol y cyngor cymuned.

**Argymhelliad 2:**

Derbyn y wybodaeth monitro cyllideb ar gyfer 2025/26 fel cofnod gwir a chywir o sefyllfa ariannol bresennol y Cyngor Cymuned.

**Argymhelliad 3:**

Defnyddio'r canlynol i dalu am weddill gwaith draenio Ynys Wen:

i. £1,747.33 o danwariant 2025/26 Ynys Wen
ii. £3,252.67 o Gronfeydd Wrth Gefn Ynys Wen

**Argymhelliad 4:**

Trosglwyddo £9,767.22 o'r Cyfrif Elusennol Ynys Wen i'r Cyfrif Cronfeydd Wrth Gefn Ynys Wen, fel

**Recommendation 1:**

To accept the bank reconciliation at 31/03/2026 as a true and accurate record of the community council's financial accounts.

**Recommendation 2:**

To accept the budget monitoring information for 2025/26 as a true and accurate record of the current financial position of the Community Council.

**Recommendation 3:**

Use the following to pay for the remaining Ynys Wen drainage work:

i. £1,747.33 from the 2025/26 Ynys Wen underspend
ii. £3,252.67 from the Ynys Wen Reserves

**Recommendation 4:**

Transfer £9,767.22 from the Ynys Wen Charitable Account into the Ynys Wen Reserve Account so

bod yr arian yn ennill llog ac yn cael ei ddiogelu ar gyfer cynnal a chadw yn y dyfodol.

**Argymhelliad 5:**
Peidio â throsglwyddo costau cynnal a chadw Ynys Wen ar gyfer 2025/26 i'r Prif Gyfrif Elusennol.

**Argymhelliad 6**
Trosglwyddo'r balans heb ei ddyrannu o £3,542.12 o'r Prif Gyfrif i'r Cyfrif Cronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol, lle bydd yn ennill llog.

**Argymhelliad 7**
Trosglwyddo balans y Cronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol, sef £3,837.75, o'r Prif Gyfrif i'r Cyfrif Cronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol, fel yr oedd wedi'i fwriadu pe bai'r gyllideb wrth gefn (contingency) ar gyfer 2025/26 heb ei defnyddio.

**Argymhelliad 8**
Trosglwyddo balans y cronfeydd wrth gefn wedi'u glustnodi, sef £5,429.25, o'r Prif Gyfrif i'r Cyfrif Cronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol, gan sicrhau bod yr arian yn parhau wedi'i glustnodi ar gyfer y prosiectau cymeradwy, h.y. Rampiau cyflymder £2,500, Ffioedd Cyfreithwyr £900 a gwaith atgywirio'r cloc £2,029.25
Bydd hyn yn galluogi'r arian clustnodedig i ennill llog, tra'n aros wedi'i gylchynu ar gyfer eu defnydd penodol.

**Argymhelliad 9:**
Bod yr Aelodau yn nodi ac yn derbyn sefyllfa cyllideb 2026/27, gan gynnwys y gyllideb adennill gymeradwy o £77,432.57 a'r symudiadau cronfeydd wrth gefn diwedd blwyddyn a nodir yn yr adroddiad hwn.

Mae hyn yn cadarnhau:
i. bod y gyllideb 2026/27 yn parhau i fod yn gyflawnadwy
ii. bod lefelau'r cronfeydd wrth gefn yn briodol ac yn unol â'r canllawiau
iii. bod y Cyngor yn dechrau'r flwyddyn ariannol newydd ar sail gadarn a chynaliadwy

**Argymhelliad 10:**
Cymeradwyo'r Rheoliadau Ariannol, fel yr adolygwyd gan y Pwyllgor Cyllid a Phersonél.

**Argymhelliad 11:**
Cymeradwyo'r Rheolau Sefydlog, fel yr adolygwyd gan y Pwyllgor Cyllid a Phersonél.

the funds earn interest and are protected for future maintenance.

**Recommendation 5 :**
Do not transfer Ynys Wen maintenance costs for 2025/26 to the main Charitable Account.

**Recommendation 6**
Transfer the unallocated balance of £3,542.12 from the Main Account into the General Reserve Account, where it will earn interest.

**Recommendation 7**
Transfer the General Reserve balance of £3,837.75 from the Main Account into the General Reserve Account, as was intended if contingency budget heading for 2025/26 was unspent.

**Recommendation 8**
Transfer the earmarked reserve balance of £5,429.25 from the Main Account into the General Reserve Account, with these funds remaining earmarked for their approved projects, i.e. speed ramps £2,500, Solicitors £900 and clock renovations £2,029.25.
This move allows earmarked reserves to benefit from interest while still being ring-fenced.

**Recommendation 9:**
That Members note and accept the 2026/27 budget position, including the approved breakeven budget of £77,432.57 and the associated year-end reserve movements outlined in this report.

This confirms that:
i. the 2026/27 budget remains deliverable
ii. reserve levels are appropriate and compliant with guidance
iii. the Council is entering the new financial year on a sound and sustainable footing.

**Recommendation 10:**
To approve the Financial Regulations, as reviewed by the Finance and Personnel Committee.

**Recommendation 11:**
To approve the Standing Orders, as reviewed by the Finance and Personnel Committee.

**Argymhelliad 12:**
Cymeradwyo Telerau Cyfeirnod Pwyllgor Cyllid a Phersonél, fel yr adolygwyd gan y Pwyllgor Cyllid a Phersonél.

**Recommendation 12:**
To approve the Finance and Personnel Committee Terms of Reference, as reviewed by the Finance and Personnel Committee.

**Argymhelliad 13:**
Cymeradwyo'r Gofrestr Asesu Risgiau Llywodraethu a Chyllid, fel yr adolygwyd gan y Pwyllgor Cyllid a Phersonél.

**Recommendation 13:**
To approve the Governance and Financial Risk Assessment Register, as reviewed by the Finance and Personnel Committee.

**Argymhelliad 14:**
Penodi Cyngor Gwynedd yn archwilydd mewnol ar gyfer cyfrifon 2025/26.

**Recommendation 14:**
To appoint Cyngor Gwynedd as internal auditor for 2025/26 accounts.

**Argymhelliad 15:**
Cymeradwyo cofrestru awtomatig y Clerc i gynllun pensiwn gweithle NEST, yn weithredol o fis Hydref.

**Recommendation 15:**
To approve the automatic enrolment of the Clerk into the NEST workplace pension scheme, with effect from October.

**Argymhelliad 16:**
Cymeradwyo talu cyfraniadau pensiwn y cyflogwr ar y gyfradd statudol o 3%, gan gynnwys unrhyw symiau ôl-ddyddiedig sy'n ofynnol.

**Recommendation 16:**
To approve payment of employer pension contributions at the statutory rate of 3%, including any backdated amounts required.

**Argymhelliad 17:**
Awdurdodi'r Clerc/RFO i gwblhau'r ddogfennaeth angenrheidiol mewn perthynas â phensiynau a chydymffurfiaeth, a chymeradwyo bod darpariaeth ar gyfer cyfraniadau pensiwn parhaus y cyflogwr yn cael ei gynnwys yng nghyllideb y Cyngor o hyn ymlaen.

**Recommendation 17:**
To authorise the Clerk/RFO to complete the necessary pension and compliance documentation, and to approve that ongoing employer pension contributions be provided for within the Council's budget going forward.